Swansea University
Prifysgol Abertawe

**<u>Disgrifiad Swydd: Swyddi Gwasanaethau Proffesiynol</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth:** | Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Proffesiynol y Gyfadran |
| **Teitl y Swydd:** | Technegydd (Gwyddor Bywyd) |
| **Adran/Pwnc:** | Technegol, Isadeiledd a'r Amgylchedd |
| **Cyflog:** | Gradd 6 £30,378 - £33,951 |
| **Oriau gwaith:** | 28 awr yr wythnos/0.8 CALl |
| **Contract:** | Parhaol |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar bob campws a safle'r Brifysgol yn ôl yr angen |

<table>
<tr>
<td>Prif Ddiben y Swydd</td>
<td>
Mae Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Proffesiynol y Cyfadrannau'n gweithio ar draws tair cyfadran y Brifysgol ac ynddynt; Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg, a'r Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd. Bydd cydweithwyr yn y gyfarwyddiaeth yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr academaidd ac ymchwil yn y cyfadrannau, a chyda myfyrwyr, ac yn gweithio'n agos gyda thimau cyfarwyddiaethau a gwasanaethau eraill yn y Brifysgol.
Mae tîm Technegol y Gyfadran yn cynnwys cydweithwyr sy'n gweithio mewn amrywiaeth ehangach o ddisgyblaethau academaidd a chyfleusterau'r Brifysgol. Er bod staff Technegol yn arbenigo mewn meysydd a/neu ddisgyblaethau academaidd penodol, anogir y tîm i weithio'n gydweithredol ac yn greadigol gan gydnabod manteision gwaith a rennir ac elwa o sgiliau a phrofiadau mewn meysydd eraill. Mae'r cydweithrediad hwn a'r gofyniad i weithio ar draws y tîm yn ehangach hefyd yn hanfodol i ddarparu gwydnwch yn y Brifysgol.
Mae Prifysgol Abertawe yn llofnodydd balch o Ymrwymiad y Technegwyr. Arweinir y fenter a'r rhaglen hon gan staff technegol ar gyfer staff technegol, ac fe anogir holl aelodau'r tîm i chwarae rôl weithgar mewn arweinyddiaeth a/neu gyfranogiad.
<ol>
<li>Helpu i weithredu cyfleusterau addysgu a/neu ymchwil Gwyddor Bywyd o ddydd i ddydd, gan gynnwys cynorthwyo wrth ddyrannu gwaith a chynorthwyo gyda gwaith rheoli staff technegol a phrentisiaid.</li>
<li>Cyflawni rôl ategol yn y cyfleusterau Gwyddor Bywyd mewn cydweithrediad â staff, myfyrwyr a chyfadrannau eraill yn ôl y gofyn.</li>
<li>Darparu cymorth a chyngor i staff academaidd, myfyrwyr, ymchwilwyr ac aelodau staff technegol eraill.</li>
<li>Cynnal a chadw, gwasanaethu, calibradu ac atgyweirio cyfarpar Gwyddor Bywyd i ddiwallu anghenion gofynnol.</li>
<li>Helpu i drefnu a pharatoi cyfleusterau addysgu ac ymchwil ymarferol wedi'u diffinio'n glir.</li>
<li>Cynorthwyo wrth gynnal sesiynau ymarferol naill ai mewn amgylcheddau addysgu a/neu ymchwil yn ôl y gofyn.</li>
<li>Cynorthwyo wrth arddangos cyfarpar, meddalwedd a gweithdrefnau i ddefnyddwyr yn ôl yr angen.</li>
<li>Cefnogi a chynghori staff academaidd i ddatblygu ac addasu arbrofion ar gyfer cyfleusterau a gweithgareddau Gwyddor Bywyd.</li>
<li>Cefnogi gwaith ar y cyd ag arweinwyr academaidd a chefnogi teithiau maes ac ymweliadau â safleoedd yn ôl yr angen.</li>
<li>Cydweithio â staff o adrannau a meysydd addysgu ac ymchwil cysylltiedig eraill, pan fo'n berthnasol, wrth ddarparu gwasanaethau technegol.</li>
<li>Rhwydweithio â staff technegol eraill yn y Gyfadran, y Brifysgol ac ym maes ehangach addysg uwch neu'r sector diwydiannol i wella profiad y myfyriwr a/neu'r profiad ymchwil, e.e. Ymrwymiad y Technegwyr.</li>
<li>Ymgysylltu'n weithredol â thimau Iechyd, Diogelwch a Gwydnwch a Chynaliadwyedd y Brifysgol i hyrwyddo safonau rhagorol mewn iechyd, diogelwch a lles mewn cyfleusterau disgyblaethau diffiniedig a sicrhau cydymffurfir â pholisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol.</li>
<li>Cefnogi prosesau prynu a chaffael a llunio dogfennaeth dendro yn ôl yr angen.</li>
</ol>
</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | 14. Cefnogi cyd-dechnegwyr a chefnogi a darparu gwasanaeth cyflenwi i anghenion busnes eraill yn ystod absenoldeb neu gyfnodau prysur, yn ôl yr angen.<br>15. Diweddaru gwybodaeth am y maes a dealltwriaeth ohono'n barhaus i hwyluso addysgu a/neu ymchwil.<br>16. Cydlynu a rheoli eich llwyth gwaith eich hun a rhoi cyfarwyddyd i'r sawl sy'n atebol yn uniongyrchol i chi, yn ôl y gofyn. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 1. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>2. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal cysylltiadau gwaith cadarnhaol.<br>3. Arwain ar wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o broffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>4. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/y Gyfarwyddiaeth/y Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt.<br>5. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |
| **Gwerthoedd y Gwasanaethau Proffesiynol** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd - Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol - a disgwylir i bawb allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg cyflwyno cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein huniondeb a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog.<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br><br>**Rydym yn Ofalgar**<br>Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |
| **Manyleb Person** | **<u>Meini Prawf Hanfodol:</u>**<br>**Gwerthoedd:**<br>1. Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol<br>2. Gallu gweithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau'r cwsmeriaid.<br>3. Tystiolaeth o ymagwedd ofalgar at eich holl gwsmeriaid, gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol.<br><br>**Cymwysterau:**<br>1. Addysg hyd at Safon Uwch o leiaf, yn ddelfrydol gan gynnwys pwnc sy'n gysylltiedig â Gwyddor Bywyd a/neu gymhwyster Lefel 4 mewn pwnc sy’n gysylltiedig â Gwyddor Bywyd a/neu dystiolaeth o brofiad a chymwysterau cyfwerth sy'n gymesur â rolau a chyfrifoldebau'r swydd.<br>2. Wedi cwblhau cyfnod cydnabyddedig o hyfforddiant (prentisiaeth, cynllun hyfforddiant ffurfiol neu debyg) a phrofiad gwaith perthnasol sylweddol. |

**Profiad:**

1. Profiad o ddarparu cymorth technegol mewn amgylchedd technegol ym maes Gwyddor Bywyd neu faes cysylltiedig agos.
2. Profiad o brosesau iechyd a diogelwch mewn amgylchedd technegol ym maes Gwyddor Bywyd neu faes cysylltiedig agos.

**Gwybodaeth a Sgiliau**

1. Gallu dangos dealltwriaeth dda o ofynion Iechyd a Diogelwch a gofynion amgylcheddol.
2. Y gallu i baratoi deunyddiau perthnasol ar gyfer arbrofion a sesiynau ymarferol Gwyddor Bywyd neu rai tebyg iawn.
3. Y gallu i gyflwyno arddangosiadau i ddefnyddwyr.
4. Tystiolaeth o sgiliau TG cryf.
5. Sgiliau cryf o ran dadansoddi, canfod gwallau a datrys problemau.
6. Sgiliau cynllunio a blaenoriaethu er mwyn sicrhau bod deunyddiau ac offer yn cael eu caffael yn brydlon a'u bod ar gael yn ôl yr angen.
7. Paratoi a chynnal prosesau a dogfennaeth iechyd a diogelwch ac amgylcheddol perthnasol yn yr amgylchedd technegol.
8. Y gallu i ddarllen a deall cyfarwyddiadau gwaith technegol a dehongli a llunio dogfennau dylunio.
9. Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant pellach yn ôl yr angen.
10. Y gallu i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm ag amrywiaeth o sgiliau.
11. Gwybodaeth am offer a chyfleusterau Gwyddor Bywyd, neu sydd â chysylltiad agos â'r maes, amserlenni cynnal a chadw, a gwaith cadw cofnodion cysylltiedig.
12. Y gallu i ddangos sgiliau cyfathrebu da, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
13. Llawn cymhelliant ac yn gallu gweithio'n annibynnol.

**<u>Meini Prawf Dymunol:</u>**

1. Cymhwyster Iechyd a Diogelwch cydnabyddedig fel NEBOSH neu IOSH neu barodrwydd i weithio tuag at y rhain.
2. Cymwysterau addysg bellach, addysg uwch neu broffesiynol perthnasol.
3. Profiad o weithio yn y sector Addysg Uwch.
4. Profiad blaenorol o ddarparu cymorth technegol mewn cyfleusterau Gwyddor Bywyd.
5. Aelod cofrestredig o gorff proffesiynol.
6. Profiad o ddarparu cymorth addysgu i ddysgwyr/fyfyrwyr.
7. Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg.
8. Trwydded Yrru.

**Lefel Iaith Gymraeg**

Level 1 – ‘a little’ - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.

Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we’r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Athena SWAN Silver Award
ECU GENDER CHARTER

Stonewall CYMRU
DIVERSITY CHAMPION

HR EXCELLENCE IN RESEARCH